

# RHONDDA CYNON TAF

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGHORYDD

Dyma adroddiad y Cyngorydd Tina Williams isod ynglŷn â'i gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn yn dod i ben Mai 2018. Mae'n cael ei gyhoeddi er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

**Cyngorydd:** Tina Williams

**Ardal Etholiadol:** De Aberaman

**Grŵp Gwleidyddol:** Llafur

### **Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau**

Rwy'n mynychu cyfarfodydd llawn y Cyngor.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu.

Rwy'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant.

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd.

Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.

Cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu.

Rwy'n addoli yn Eglwys Sant Joseff. Rwyf ar y Cyngor Plwyf Eglwysig, yn athrawes Ysgol Sul ac yn helpu pan fydda i'n gallu chwarae gyda Messy Church unwaith y mis.

Rwy'n Llywodraethwr Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Ioan Fedyddiwr ac Ysgol Gynradd Glynhafod, Cwmaman.

Rwy'n aelod o Goed Cadw.

Rwy'n is-drysorydd Cyfeillion Cwmaman.

Rwy'n is-gadeirydd Grŵp Henoed Cwmaman.

Rwy'n aelod o Bwyllgor Band Arian Iau Cwmaman.

### **Adran 2: Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwy'n cefnogi ac yn gweithio gyda phob unigolyn a sefydliad sy'n cysylltu â mi ar ystod eang o faterion, gan gynnwys:

- priffyrdd
- yr amgylchedd
- codi arian
- materion personol
- unrhyw fater lle rwy'n credu bod modd i mi helpu

Rwy'n mynychu cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd yn rheolaidd ac yn cysylltu â'r heddlu ynglŷn â materion lleol.

Rwy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter i gyfathrebu â thrigolion.

Rwyf wedi cwrdd â llawer o drigolion sydd â phroblemau personol ac rwyf wedi eu cynghori i gysylltu â Chanolfan Cyngor ar Bopeth, yr adran Materion Tai ac ati.

Rwy'n gyfeillgar ac mae modd i bobl siarad gyda fi yn y ward, ac rwy'n sicrhau bod y gymuned yn lân a does dim sbwriel yno.

Ar gyfer unrhyw faterion sy'n ymwneud â thai sy'n dod i'm sylw, rwy'n gweithio ochr yn ochr â Trivalis a Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf.

Rwy'n cysylltu ag Adran Priffyrdd y Cyngor am nrhyw faterion sy'n ymwneud â phriffyrdd e.e. tyllau, diffygion draenio a materion eraill.

### **Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn gyda'r ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yng Nghwmaman. Rwy'n aelod o gorff dros dro yr ysgol yng Nghwmaman lle rwy'n gwneud penderfyniadau gyda'r Llywodraethwyr eraill.

Rydyn ni wedi nodi cynlluniau lliniaru llifogydd yng Nglynhafod, a ddylai ddatrys unrhyw broblemau draenio y mae'r trigolion wedi eu hwynebu yn y gorffennol. Mae'r rhain yn cynnwys cwlferd newydd ym Mrynhyfryd, cyrbau ACO ar hyd Ffordd Glanaman a bwndiau lliniaru llifogydd yng Nglynhafod.

Rwyf wedi trefnu ychydig o ddigwyddiadau codi arian megis 'Giving To Pink', Yr Eglwys/The Church, a 'The Great Get Together'.

Mae llawer o lefydd tipio anghyfreithlon yn y ward ac felly rwy'n gweithio'n agos gyda Swyddogion y Cyngor i gadw ar ben y broblem. Rwyf wedi cynnal nifer o ddiwrnodau casglu sbwriel gan weithio gydag ysgolion yn eu milltir sgwâr. Yr un mwyaf diweddar oedd ar gangen rheilffordd Dâr Aman lle'r oedden ni wedi gosod biniau newydd lle'r oedd mynediad i'r llinell.

### **Adran 4: Dysgu a Datblygu**

Diogelu.  
Cam-drin yn y Cartref.  
Rhianta Corfforaethol.  
Diogelu data.


### **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwy'n aelod o Ffrindiau Cwmaman ac rwyf wedi trefnu te prynhawn ar gyfer y gymuned sawl gwaith a oedd yn llwyddiannus iawn.

Rwyf wedi trefnu sioe ffasiwn ar gyfer Giving to Pink.

Diwrnodau codi sbwriel a glanhau.

Llofnod y Cyngorydd:



Dyddiad: 21 Mai 2018